# Tiwtoriaid Gwaith Ieuenctid

**Rhan amser, oriau amrywiol**
**£25.40 yr awr (yn cynnwys tâl gwyliau)**

Mae gennym gyfle cyffrous i Diwtoriaid Gwaith Ieuenctid profiadol ymuno â sefydliad ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i wasanaethu poblogaeth oedolion Cymru gyda chyfleoedd ysbrydoledig sy'n newid bywyd. Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn fudiad democrataidd, annibynnol a gwirfoddol, sydd wedi ymrwymo i ehangu cyfranogiad, hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol a datblygu sgiliau a darparu dysgu o'r ansawdd gorau, gan weithio ar y cyd gyda'i bartneriaid.

**Am y swydd**

Byddwch yn cynllunio, paratoi a darparu cyrsiau a rhaglenni dysgu, ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn unol ag anghenion y dysgwr a Phrosesau a gweithdrefnau Ansawdd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Byddwch yn cyflwyno dysgu o ansawdd uchel gan ddefnyddio ystod o ddulliau addysgu ac yn defnyddio ystod o ddulliau asesu priodol yn unol ag anghenion y dysgwyr a gofynion y corff dyfarnu. Byddwch yn sicrhau fod dysgwyr yn cael adborth clir ac adeiladol o fewn amserlenni priodol.

**Amdanoch chi**

Mae isafswm cymhwyster addysgu Lefel 3 ynghŷd â chymhwyster proffesiynol mewn gwaith ieuenctid yn hanfodol ar gyfer y swydd hon. Byddwch yn ymarferydd Gwaith Ieuenctid gyda cymhwyster proffesiynol Lefel 6, a gyda'r gallu i addysgu ac asesu drwy lwyfannau ar-lein. Bydd gennych brofiad o weithio yn y sector gwaith ieuenctid a chymunedol, ac o gynllunio a darparu dysgu. Byddai dealltwriaeth o systemau ansawdd a hunanasesu, cymwysterau mewn Arweiniad Addysg Oedolion ac Ansawdd Mewnol, a'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

**Am ein buddion:**

Mae buddion deniadol ar gael yn cynnwys:

- £25.40 yr awr (yn cynnwys tâl gwyliau)
- Oriau hyblyg
- Teithio ar draws Cymru
- Cynllun Pensiwn Athrawon

**Sut i ymgeisio**

**Nodwch os gwelwch yn dda nid yw CV yn dderbynniol,** ymgeisiwch gan ddefnyddio'r pecyn cais sydd ar gael ar https://www.adultlearning.wales/cym/amdanom/swyddi

Dyddiad cau y swydd yw **5yp ar Dydd Mercher 25[ain] Awst 2021**
Rydm yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg

Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i greu amgylchedd gwaith cynhwysol. Credwn fod cael gweithlu amrywiol ar bob lefel yn caniatáu i ni gynrychioli'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae safbwyntiau a phrofiadau amrywiol yn hanfodol i'n llwyddiant ac rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb o bob cefndir sydd gyda'r profiad a'r sgiliau anghenrheidiol i gyflawni'r rôl hon.